Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **05 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 – cadarnhaol**

**Trosolwg Polisi o'r Offeryn Statudol (OS)**

Mae'r OS yn diwygio tri OS gofal iechyd cilyddol a wnaed ar sail Cymru a Lloegr, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb yn 2019 er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir.

Nid oes unrhyw ymwahanu o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r OS hwn.

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Gofal Iechyd Cilyddol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Gogledd Iwerddon) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) (Ymadael â'r UE) 2019

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw sicrhau bod y tri OS Ymadael â’r UE yn weithredol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac yn cydymffurfio â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2020/9780348212594

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OS yn diwygio OSau Ymadael â’r UE sy'n ymwneud â gofal iechyd cilyddol i adlewyrchu rhai hawliau gofal iechyd yn y Cytundeb Ymadael, y Cytundeb Gwahanu gyda gwladwriaethau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Ardal Masnach Rydd Ewropeaidd (EEA EFTA) a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir. Mae hefyd yn gwneud newidiadau technegol megis disodli cyfeiriadau at y diwrnod ymadael gyda chyfeiriadau at ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu. Effaith y diwygiadau yw bod adrannau 6A i 6BB o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn cael eu diwygio at ddibenion trefniadau pontio sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal iechyd i drigolion Cymru am driniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw yn un o wladwriaethau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a awdurdodwyd cyn dyddiad cwblhau’r cyfnod gweithredu.

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw'r OS yn golygu y caiff unrhyw swyddogaethau eu trosglwyddo ac nid yw ychwaith yn rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Ni cheir ymwahanu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Er bod gofal iechyd yn faes sydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, cyfyngedig yw'r posibilrwydd i Gymru roi polisi gwahanol ar waith oherwydd ei bod yn ofynnol bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol yr ymrwymwyd iddynt gan y DU. Byddai'r rhain yn cynnwys trefniadau gofal iechyd rhyngwladol. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.